# Cyngor Tref Treffynnon Holywell Town Council

Swyddfeydd Bank Place,
Treffynnon,
Sir y Fflint, CH8 7TJ

Tel: (01352) 711757

Bank Place Offices,
Holywell,
Flintshire, CH8 7TJ

Tel: (01352) 711757

e-bost/e-mail: town.clerk@holywell.wales
Gwefan/Website: holywell.wales


## HYSBYSIAD O DAN DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972 (Adran 87(2))

# SEDD WAG I GYNGHORYDD

### RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HWN I'R CYHOEDD

bod sedd wedi digwydd dod yn wag yn swydd y Cynghorydd i Ward Dwyrain Treffynnon yn Nhref/Cymuned Treffynnon yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Joe Johnson ar Ddydd 19 Mai 2022.

1. Mae Rheol 5(2) Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006 yn berthnasol yn awr.

2. Mae'r rheol yn caniatáu i **DDEG ETHOLWR** ar gyfer Ward Cymunedol Dwyrain Treffynnon, lle mae'r sedd wedi digwydd dod yn wag, ofyn i'r Swyddog Canlyniadau gynnal etholiad i lenwi'r sedd. * Mae'n rhaid gwneud y cais hwnnw o fewn **PEDWAR DIWRNOD AR DDEG**, wedi'u cyfrif yn unol â'r rheolau, ** o ddyddiad yr hysbysiad hwn. Daw'r cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg i ben ar **DYDD MERCHER, MEHEFIN 15, 2022.**

3. Os na wneir unrhyw gais, mae'n rhaid i'r Cyngor Tref/Cymuned, gynted ag y bo'n ymarferol wedi i'r cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg ddod i ben, gyd-ethol rhywun i lenwi'r sedd.

Cyfeiriad y Swyddog Canlyniadau yw Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NR a'r rhif ffôn i gael rhagor o arweiniad yw (01352) 702329.

Dyddiedig: Dydd Mawrth 24 Mai 2022

**Jason Baker, Clerc i'r Cyngor**

* Nid oes geiriad ffurfiol ar gyfer y cais yma, gallai fod yn llythyr syml gyda'r geiriau hyn yn bennawd arno "Rydym ninnau sydd wedi llofnodi isod, sy'n etholwyr ar gyfer [Ward] Cymuned … , yn galw am etholiad i lenwi'r sedd wag a gododd oherwydd [marwolaeth] [ymddiswyddiad] ….". Mae'n ddefnyddiol cael enwau a chyfeiriadau wedi'u printio i gyd-fynd â'r deg llofnod.

** Wrth gyfrifo'r cyfnod o rybudd, y diwrnod cyntaf yw'r diwrnod yn dilyn dyddiad yr hysbysiad yma; anwybyddir Dydd Sadwrn, Dydd Sul, Noswyl Nadolig, Diwrnod Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu Wyliau Banc neu ddiwrnod a bennir ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus, a daw'r cyfnod i ben am hanner nos ar y pedwerydd diwrnod ar ddeg yn dilyn dyddiad yr hysbysiad hwn. Mae Rheol 5(2) Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr), 2006 yn berthnasol yn awr.